Aled M Jones	SSG Chair
Donald White	Federation of Small Businesses (FSB)
Nick Blackburn	ONR
Gareth Davies	Wylfa SJC Representative
Derek Owen	Llanbadrig CC / Resident
Enid Jones	Merched y Wawr
Jonathan Jenkin	NDA
Julia Dobson	Llanbadrig CC / Resident
Elfed Jones	Llanbadrig CC / Resident
Ken P Hughes	CSYM
Gareth Winston Roberts	Amlwch Town Council
Mair Jones	Magnox Communications
Paul Wright	Natural Resources Wales
Tim Poole	CPRW
Jac Jones	Mechell Community Council
R W Hughes	Mechell Community Council
C3484 Cooper	North Wales Police
C3643 Jones	North Wales Police
Michelle Humphreys	Magnox Communications
Gordon Malcolm	Magnox Ltd
Jill Callander	SSG Secretariat
Frances Taylor	Rhun ap Iorwerth AM
Mark Elsworth	Magnox Ltd
W T Hughes	IOACC
Also:	
Caroline Jones	Minute taker - Cymen
Ann Llwyd	Translator - Cymen

1. Welcome and receive apologies for absence

Aled M Jones welcomed everyone to the Autumn meeting and apologies were received from:
Deborah Ward, NDA
Rona Arkle, Nuclear Regulation, Environment Agency
Aled Williams, Magnox Ltd
Richard Foxhall, Horizon
Chris Thomas, Food Standards Agency
PC Louise Evans, Operational Planning and Support Services
Cllr. Myrddin Owens, Amlwch Town Council

Cllr. John Griffith, IOACC Talybolion
Jean Jones
Annette Jones, Anglesey Federation of Wales
Peter Day, Federation of Small Businesses
Gwyn Hughes, Emergency Planning Officer, North Wales Council
Cllr. Llinos Medi Huws, Talybolion Ward
Roy Chape, Emergency Planning Team

A warm welcome was extended to new members:
Gareth Davies, Jonathan Jenkin, NDA, Mr. Don White FSB and Mrs Enid Jones Merched y Wawr.

2. Approval of the minutes of the 19 May 2016 meeting

The minutes were approved as a true and correct record by Gareth Winston Roberts and seconded by Derek Owen.

3. Matters arising from the previous minutes

Matters arising were covered in the meeting's business to follow.

4. SSG Chairman's Report

The Chair announced that he had been appointed as the Chair of SSG Chair's Group who met 3-4 times a year.

A verbal update on his recent activities was presented. Assurance had beeb sought that further good neighbour level socio-economic funding would be available if a site exceeded the £6k limit.

Since the last SSG meeting, Energy*Solutions* and NDA have been through a court case which was now going to appeal through the High Courts.

A Panorama programme about Sellafield was aired on TV recently, about which the Chair had been forewarned. Following the programme he had offered his support to the NDA CEO as the programme seemed very imbalanced.

Forthcoming meetings the Chair was to attend included: RWM meeting in Manchester later this month regarding waste strategy and the SSG Chairs' meeting in London in November.

5. Wylfa Site Director's Report

As Stuart Law was not present at the meeting, his report was presented by Gordon Malcolm, Wylfa Plant Manager. The report had been circulated in advance and attention was drawn to the following items within it:

There had been no first aid injuries on site since the last meeting and a Target Zero safety campaign had been launched.

The defuelling structure was now operational however defuelling had not progressed as well as expected due to issues with fuel route equipment breaking down. One issue relating to failure of the bearings on Fuelling Machine 2 carousel which had resulted in a letter from ONR and a meeting in Bootle to answer any issues arising. The other maintenance issue, failure of the radius and azimuith drives on Dry Store Cell 2, was currently being worked on.

As a result of these issues, there has been a reduction in scheduled defuelling with Reactor 1 approx. 5.7% defuelled and Reactor 2 approx. 42% defuelled.

The Dry Store Cell 5 was back in service and currently loading the first flask for dispatch.

A significant milestone had been reached with regard to the Intermediate Level Waste Recovery project. In the last two years there had been collaboration with two local companies on the manufacture of bespoke machinery for waste recovery. It was reported that the Operations Team and rehearsals were performing well with regard to this project.

Work was progressing well on the Active Effluent Discharge Line project. 93 metres of redundant pipeline would be decommissioned as a result.

Maentwrog – It was reported that 13GW/hours of renewable energy had been produced since the beginning of June, against a target of 10GW/hours, as a result of heavy rainfall.

Further information was given regarding the EHSSQ letter from the ONR regarding the shield cap event. Constructive dialogue with the regulator has taken place and lessons learnt have been noted.

Current workforce figures on site were reported as 355 employees and 3 agency supplied; the figure did not include Magnox support office staff based at Wylfa.

Wylfa 21 work in community was highlighted and included an event on the 20 June to celebrate 24 years of fundraising, which had collectively raised in excess of £200k through the Wylfa 21 Fund. Thirty charities who benefitted from the fund were invited to the event. Stuart Law had recently opened the Cemaes Carnival and Magnox socio-economic scheme funding had also been given to the Cemaes Vintage Festival and Holyhead Sail Festival.

The Chair referred back to the Maenwrog section of the report and explained to the Group that Maentwrog was under the responsibility of Wylfa, and as such was included at these meetings.

Questions

Ken Hughes asked whether there should be concern about safety on the site because of the four letters issued by the ONR during the last two years. Gordon Malcolm replied that he did not believe that there were any concerns.

Derek Owen asked if it would be possible for SSG members to have a site visit in order to gain better understanding of the decommissioning. Gordon Malcolm confirmed he would look into this request and feed back to the Group.

Action – SSG Secretariat to ascertain if it will be possible for an SSG Site Visit

6. Nuclear Decommissioning Authority Update

Jonathan Jenkin presented the latest update. He reported that a High Court had judged against the NDA following a trial to examine the claim for damages submitted by Energy*Solutions* over its unsuccessful bid to secure the Magnox contract. Further hearings are due to take place but it is expected to be sometime in 2017 before there is a final outcome.

Following changes in a number of government departments, the NDA now reports to the newly created Department for Business, Energy and Industry Strategy (BEIS).

Jonathan advised the SSG Members that the NDA CEO John Clarke was retiring and Peter Lutchworth, Chief Operating Officer was also leaving, for a new position elsewhere.

The NDA's Chairman Stephen Heywood was also coming to the end of a third term, and appointment of a successor was expected over the next few months.

Magnox Estates matters were highlighted including:

Bradwell – it was reported that the planning permission to enable packaged waste from Sizewell and Dungeness sites to be stored at Bradwell had been approved. This will save the UK Taxpayer £200m.

The BBC's Panorama programme was referred to in more detail, it had been broadcast a few weeks previously and had focussed on safety at Sellafield, and was based on information from a whistle-blower. The NDA was very disappointed with the nature of the programme as the site has an excellent safety record having won nine gold and

one silver RoSPA safety awards. The NDA thanked the chairman for his telephone call of support.

A question was asked if Maentwrog was being sold by the NDA. Jonathan reported that the NDA was reviewing ownership of the site and its associated assets as part of the business strategy and explained that the Site was not core to decommissioning work. No decision or timetable had been made on this as yet and an update would be given as the review progressed.

Questions
Cllr Jac Jones enquired about the waste disposal presentation offered previously by Radioactive Waste Management (RWM). The Chair replied that the SSG was still waiting for them to honour their commitment and that he would raise the request at the meeting in Manchester and get back to Cllr Jones in due course.

Action – SSG Chair/SSG Secretariat to ascertain if a presentation by RWM would be possible at the next SSG in February.

Gareth Winston Roberts asked for further information on the court case between the NDA and Energy*Solutions* (ES). In response, it was reported that the basis of the claim was that errors were made in the contract competition scoring process. The Judge found that errors were made in the scoring process between ES and the Cavendish Fluor Partnership. As ES had issued their claim after the two week appeal period following the completion of the competition process they were not seeking to overturn the competition decision, just claiming damages. A claim of approx. £100m was expected however the appeal was still underway. The Chair asked if the NDA would ask the Government for further funding to pay the compensation, to which the NDA responded that they would try their best to avoid this were making some provision contingent on a legal decision which may or may not happen.

7. Office for Nuclear Regulation Update

Nick Blackburn presented the ONR report and apologised for not attending the last meeting. Operational strategy is to attend one SSG a year.
Routine inspections were continuing with no significant issues having arisen.

The report focussed on the non-routine matter of interest – as reported by Gordon Malcolm earlier in the meeting. Stuart Law and Gordon Malcolm had met with the ONR Bootle in order for the ONR to gain some assurances on the matter. As a result, ONR inspections have been increased from quarterly to monthly to provide assurance that the defuelling safety case has been embedded.

There were no concerns for safety and no reasons to be worried about safety. The transition of people had been relatively smooth and there were no immediate causes for concern.

Questions:

Derek Owen showed concern about staff morale, in that some people had been employed at Wylfa for many years and some were worried about the cap of end wages. Nick Blackburn stated that this was not a matter that ONR could comment on.

Gordon Malcolm explained that the UK Parliament Enterprise Act 2016 aspires to limit public sector employees' exit payments to £95k. He explained that some long term employees have primary protection and the Government's proposals were still being debated. It was understood that there had been significant lobbying and campaigning to MPs and to Ministers on the matter.

8. Natural Resources Wales (NRW) Update

Paul Wright presented the report which was circulated in advance and drew attention to discharges from Wylfa, which were within the limits set. Changes had been made in the sampling process and the site was now operating self-monitoring and reporting.

Routine environmental monitoring was ongoing with samples taken from various areas; there were no causes for concern.

With regard to routine regulatory matters, NRW had attended the site four times since last meeting as listed in the report.

Installation of the alternative effluent discharge line had been completed and NRW looked forward to seeing this in service. An elevated level of chromate found in the effluent was receiving attention.

NRW had made minor variations to three permits relating to surface water from the site.

It was reported that there were no events or enforcement actions since the last meeting.

Questions: there were no questions raised.

9. Update from Wylfa Waste Manager

Aled Williams was not present; therefore, the item was presented by Gordon Malcolm who gave a verbal report.

With regard to normal activities, there was nothing major to report, however the following items were highlighted:

- The DSC 4 recovery project implementation had slipped approx. two months to allow the rehearsals at Mona Engineering works to be as effective as possible.

- The Post Operational Clean-Out (POCO) had gone very well this year with more activities planned, e.g. the removal of residual ferrous sulphate, some more bulk acid and caustic, 5-AP boiler dosing chemical, insulation oil form 400KV cables, R2 circulator oil, boron dust removal, activated charcoal from the iodine absorption plant.

- The switching over to the new Active Effluent Discharge Line would allow the site to shut down the existing route. The project would produce a few cubic metres of packaged metallic waste.

All the above work is scheduled over the next few months. It was noted these were not large volumes, and that vehicular transport would remain lower than during previous normal operations.

10. Socio Economic Scheme Update

Mair Jones introduced herself as the new Socio Economic Lead and presented the report circulated in advance. Wylfa's current 2016/17 financial position was highlighted as per the tracker provided. There had been eight successful applications under the good neighbour scheme since April. There were two bigger ongoing projects - the Môn Communities First Driving Skills programme and Menter Môn Morlais tidal energy project , which would be discussed at the next SSG meeting. Details of the Socio Economic Plan were available online. Funding to the value of approx. £141k had been awarded this year to date.

It was noted that Michelle Humphreys had now taken over communications at Trawsfynydd and Wylfa.

Thanks were expressed to Jill Callander for making the meeting arrangements for the day.

11. Open Forum Question and Answer Session

No questions were received.

Any Other Business

The 2017 Meeting dates of 9 February, 8 June and 12 October were shared with members.

12. **Next Meeting** – 9 February 2017.

The meeting closed at 15.55.

Aled M Jones	Cadeirydd y GRhS
Donald White	Ffederasiwn y Busnesau Bach (FSB)
Nick Blackburn	ONR
Gareth Davies	Cynrychiolydd SJC Wylfa
Derek Owen	CC Llanbadrig / Preswylydd
Enid Jones	Merched y Wawr
Jonathan Jenkin	ADN
Julia Dobson	CC Llanbadrig / Preswylydd
Elfed Jones	CC Llanbadrig / Preswylydd
Ken P Hughes	CSYM
Gareth Winston Roberts	Cyngor Tref Amlwch
Mair Jones	Cyfathrebu Magnox
Paul Wright	Cyfoeth Naturiol Cymru
Tim Poole	YDCW
Jac Jones	Cyngor Cymuned Mechell
R W Hughes	Cyngor Cymuned Mechell
C3484 Cooper	Heddlu Gogledd Cymru
C3643 Jones	Heddlu Gogledd Cymru
Michelle Humphreys	Cyfathrebu Magnox
Gordon Malcolm	Magnox Ltd
Jill Callander	Ysgrifenyddiaeth GRhS
Frances Taylor	Rhun ap Iorwerth AC
Mark Elsworth	Magnox Ltd
W T Hughes	CSYM
Hefyd:	
Caroline Jones	Cofnodion - Cymen
Ann Llwyd	Cyfieithydd - Cymen

1. Croeso ac ymddiheuriadau am absenoldeb

Croesawodd Aled M Jones bawb i gyfarfod yr Hydref a chafwyd ymddiheuriadau gan:
Deborah Ward, ADN
Rona Arkle, Rheoleiddio Niwclear, Asiantaeth yr Amgylchedd
Aled Williams, Magnox Ltd
Richard Foxhall, Horizon
Chris Thomas, Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
PC Louise Evans, Cynllunio Gweithredol a Gwasanaethau Cymorth
Cyng. Myrddin Owens, Cyngor Tref Amlwch
Cyng. John Griffith, CSYM, Talybolion

Jean Jones
Annette Jones, Ffederasiwn Cymru Ynys Môn
Peter Day, Ffederasiwn Busnesau Bach
Gwyn Hughes, Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru
Cyng. Llinos Medi Huws, Ward Talybolion
Roy Chape, Tîm Cynllunio mewn Argyfwng

Estynnwyd croeso cynnes i'r aelodau newydd:
Gareth Davies, Jonathan Jenkin, ADN, Mr. Don White FSB a Mrs Enid Jones Merched y Wawr.

2. Cymeradwyo cofnodion cyfarfod 19 Mai 2016

Cafodd y cofnodion eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir gan Gareth Winston Roberts a'u helio gan Derek Owen.

3. Materion yn codi o'r cofnodion diwethaf

Ymdrinnir â materion yn codi ym musnes y cyfarfod sy'n dilyn.

4. Adroddiad Cadeirydd y GRhS

Cyhoeddodd y Cadeirydd ei fod wedi'i benodi'n Gadeirydd Grŵp Cadeiryddion GRhS, sy'n cwrdd 3-4 gwaith y flwyddyn.

Cyflwynodd ddiweddariad llafar ar ei weithgarwch diweddar. Gofynnwyd am sicrwydd y byddai rhagor o arian economaidd gymdeithasol lefel cymydog da ar gael pe bai'r safle'n mynd dros y terfyn o £6k.

Ers cyfarfod diwethaf y GRhS, mae Energy*Solutions* a'r ADN wedi bod yn rhan o achos llys sydd erbyn hyn wedi mynd i apêl yn yr Uchel Lys.

Cafodd rhaglen Panorama am Sellafield ei darlledu ar y teledu yn ddiweddar, ac roedd y Cadeirydd wedi cael ei rybuddio amdani ymlaen llaw. Yn dilyn y rhaglen cynigiodd ei gefnogaeth i Brif Swyddog Gweithredol yr ADN gan ei bod yn ymddangos nad oedd y rhaglen yn un wrthrychol.

Mae'r cyfarfodydd y bydd y Cadeirydd yn eu mynychu'n cynnwys: cyfarfod RWM ym Manceinion yn ddiweddarach y mis yma ar y strategaeth gwastraff a chyfarfod Cadeiryddion GRhS yn Llundain ym mis Tachwedd.

5. Adroddiad Cyfarwyddwr Safle Wylfa

Gan nad oedd Stuart Law yn bresennol yn y cyfarfod, cafodd ei adroddiad ei gyflwyno gan Gordon Malcolm, Rheolwr Peiriannau Wylfa. Roedd yr adroddiad wedi cael ei rhannu ymlaen llaw, a thynnwyd sylw at yr eitemau canlynol ynddo:

Ni fu dim digwyddiadau cymorth cyntaf ar y safle ers y cyfarfod diwethaf ac roedd ymgyrch Targed Sero wedi cael ei lansio.

Roedd y strwythur gwagio tanwydd yn awr yn weithredol; fodd bynnag nid oedd y gwaith o wagio'r tanwydd wedi mynd yn ei flaen gystal â'r disgwyl oherwydd problemau am fod yr offer llwybr tanwydd wedi torri. Un broblem oedd methiant berynnau carwsél Peiriant Tanwydd 2, ac arweiniodd hynny at lythyr gan yr ONR a chyfarfod yn Bootle i ateb am unrhyw broblemau sy'n codi. Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i gywiro problem gynnal a chadw arall, sef methiant y radiws a'r gyriannau asimwth ar Gell Storio Sych 2.

O ganlyniad i'r problemau hyn, bu gostyngiad yn y tanwydd sydd wedi'i wagio, gyda thua 5.7% o Adweithydd 1 wedi'i wagio a thua 42% o Adweithydd 2 wedi'i wagio.

Mae Cell Storio Sych 5 yn gweithio unwaith eto ac ar hyn o bryd mae'r fflasg gyntaf yn cael ei llwytho yn barod i'w symud.

Cyrhaeddwyd carreg filltir bwysig yn achos y prosiect Adennill Gwastraff Lefel Ganolraddol. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf buom yn cydweithio â dau gwmni lleol i weithgynhyrchu peiriannu pwrpasol i adennill gwastraff. Dywedwyd fod y Tîm Gweithrediadau a'r ymarferion yn dod ymlaen yn dda yn achos y prosiect hwn.

Mae gwaith ym mynd yn ei flaen yn dda ar y prosiect Llinell Gwaredu Elifiant Gweithredol. O ganlyniad i'r prosiect hwn bydd 93 metr o bibelli diangen yn awr yn cael eu datgomisiynu.

Maentwrog – Dywedwyd fod 13GW/awr o ynni adnewyddadwy wedi cael ei gynhyrchu ers dechrau Mehefin, o'i gymharu â tharged o 10GW/awr, a hynny o ganlyniad i law trwm.

Cafwyd rhagor o wybodaeth am lythyr EHSSQ gan yr ONR ynglŷn â digwyddiad y cap tarian. Cafwyd deialog adeiladol â'r rheolyddion ac mae'r gwersi a ddysgwyd wedi'u nodi.

Dywedwyd fod ffigurau'r gweithlu cyfredol ar y safle'n cynnwys 355 o gyflogeion 3 a gyflenwyd gan asiantaethau; nid oedd y ffigurau'n cynnwys staff cymorth swyddfa Magnox sydd wedi'i lleoli yn Wylfa.

Tynnwyd sylw at waith Wylfa 21 yn y gymuned ac roedd yn cynnwys digwyddiad ar 20 Mehefin i ddathlu 24 o flynyddoedd o godi arian, sydd yn ystod y cyfnod hwnnw wedi codi mwy na £200k trwy Gronfa Wylfa 21. Cafodd y 30 o elusennau a oedd wedi elwa

ar y gronfa eu gwahodd i'r digwyddiad. Yn ddiweddar roedd Stuart Law wedi agor Carnifal Cemaes ac roedd cynllun economaidd gymdeithasol Magnox wedi cyfrannu at Ŵyl yr Oes a Fu yng Nghemaes a Gŵyl Hwylio Caergybi.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y rhan o'r adroddiad a oedd yn ymwneud â Maentwrog ac eglurodd wrth y Grŵp fod Maentwrog yn dod o dan gyfrifoldeb Wylfa, ac o ganlyniad roedd yn cael ei chynnwys yn y cyfarfodydd hyn.

Cwestiynau

Gofynnodd Ken Hughes a oedd achos i fod yn bryderus ynglŷn â diogelwch ar y Safle oherwydd y pedwar llythyr a oedd wedi'u cyhoeddi gan ONR yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Yn ei ateb dywedodd Gordon Malcolm nad oedd yn credu bod achos i boeni.

Gofynnodd Derek Owen a fyddai'n bosibl i aelodau'r GRhS ymweld â'r safle er mwyn eu helpu i ddeall y broses ddatgomisiynu'n well. Cadarnhaodd Gordon Malcolm y byddai'n rhoi sylw i'r cais ac yn dod yn ôl at y Grŵp.

Gweithredu – Ysgrifenyddiaeth y GRhS i gadarnhau a fydd yn bosibl trefnu Ymweliad â'r Safle i'r GRhS.

6. Diweddariad gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear

Cyflwynwyd y diweddariad diweddaraf gan Jonathan Jenkin. Dywedodd fod yr Uchel Lys wedi dyfarnu yn erbyn yr ADN yn dilyn treial i ystyried hawliad am iawndal a gyflwynwyd gan Energy*Solutions* yn sgil ei gais aflwyddiannus i sicrhau contract Magnox. Disgwylir y bydd gwrandawiadau pellach yn cael eu cynnal rywbryd yn 2017 cyn y ceir dyfarniad terfynol.

Yn dilyn newidiadau mewn sawl un o adrannau'r llywodraeth, mae'r ADN yn awr yn adrodd i'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) sydd newydd ei chreu.

Dywedodd Jonathan wrth Aelodau'r GRhS fod Prif Swyddog Gweithredol yr ADN John Clarke yn ymddeol a bod Peter Lutchworth, y Prif Swyddog Gweithredu hefyd yn gadael, ar ôl derbyn swydd newydd â chorff arall.

Roedd trydydd tymor Cadeirydd yr ADN Stephen Heywood hefyd yn tynnu at ei derfyn, a disgwylir y bydd ei olynydd yn cael ei benodi yn ystod y misoedd nesaf.

Roedd y materion yn gysylltiedig ag Ystadau Magnox y tynnwyd sylw atynt yn cynnwys:

Bradwell – dywedwyd fod y caniatâd cynllunio i alluogi gwastraff wedi'i becynnu o safleoedd Sizewell a Dungeness i gael eu storio yn Bradwell wedi cael ei gymeradwyo. Bydd hyn yn arwain at arbedion gwerth £200m i'r trethdalwr.

Cyfeiriwyd at raglen deledu Panorama y BBC yn fwy manwl.
Roedd wedi cael ei darlledu rai wythnosau'n ôl ac roedd yn canolbwyntio ar ddiogelwch yn Sellafield, ac yn seiliedig ar wybodaeth chwythwr chwiban. Roedd yr ADN yn siomedig dros ben â natur y rhaglen gan fod gan y safle record ddiogelwch ardderchog ac mae wedi ennill naw gwobr ddiogelwch aur ac un wobr arian gan RoSPA. Roedd yr ADN wedi diolch i'r Cadeirydd am ei alwad ffôn gefnogol.

Gofynnwyd a oedd gorsaf Maentwrog wedi cael ei gwerthu gan yr ADN. Dywedodd Jonathan fod yr ADN yn adolygu perchnogaeth y safle a'i asedau cysylltiedig fel rhan o'r strategaeth fusnes ac eglurwyd nad oedd y Safle'n allweddol i waith datgomisiynu. Nid oedd penderfyniad wedi'i wneud ac nid oedd amserlen ychwaith ar gyfer hyn, a bydd diweddariad yn cael ei gyhoeddi wrth i'r adolygiad fynd yn ei flaen.

Cwestiynau
Holodd y Cyng. Jac Jones am y cyflwyniad ar waredu gwastraff a gafwyd yn gynharach gan Radioactive Waste Management (RWM). Yn ei ateb dywedodd y Cadeirydd fod y GRhS yn dal i aros iddynt anrhydeddu eu hymrwymiad ac y byddai'n gofyn eto yn y cyfarfod ym Manceinion ac yn ateb y Cyng. Jones yn y man.

Gweithredu – Cadeirydd GRhS/Ysgrifenyddiaeth GRhS i ganfod a fyddai cyflwyniad gan RWM yn bosibl yng nghyfarfod Chwefror o'r GRhS.

Gofynnodd Gareth Winston Roberts am ragor o wybodaeth am yr achos llys rhwng yr ADN ac Energy*Solutions* (ES). Mewn ymateb, dywedwyd mai gwraidd yr hawliad oedd bod camgymeriadau wedi'u gwneud yn y broses sgorio yn y gystadleuaeth am y contract. Canfu'r Barnwr fod camgymeriadau wedi'u gwneud yn y broses sgorio rhwng ES a Cavendish Fluor Partnership. Gan fod ES wedi gwneud ei hawliad ar ôl y pythefnos o gyfnod apelio ar ôl cwblhau'r broses gystadlu nid oedd yn ceisio gwyrdroi penderfyniad y gystadleuaeth, dim ond yn ceisio cael iawndal. Disgwylir hawliad o tua £100m; fodd bynnag nid oedd yr apêl wedi'i gwblhau eto. Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai'r ADN yn gofyn i'r Llywodraeth am ragor o arian i dalu'r iawndal, a dywedodd yr ADN y byddai'n gwneud ei orau i osgoi hynny trwy wneud rhyw fath o ddarpariaethau a fyddai'n ddibynnol ar benderfyniad y llys, ac nad oes neb yn gwybod eto byth fydd hwnnw.

7. Diweddariad gan y Swyddfa dros Reoli Niwclear

Cyflwynodd Nick Blackburn adroddiad yr ONR ac ymddiheurodd am nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod diwethaf. Y strategaeth weithredol yw bod yn bresennol mewn un GRhS y flwyddyn. Roedd archwiliadau rheolaidd yn parhau ac nid oedd dim problemau arwyddocaol wedi dod i'r amlwg.

Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar yr afreolaidd – fel y nodwyd gan Gordon Malcolm yn gynharach yn y cyfarfod. Roedd Stuart Law a Gordon Malcolm wedi cwrdd â'r ONR yn Bootle er mwyn i'r ONR gael peth sicrwydd ar y mater. O ganlyniad, mae arolygon yr ONR wedi cynyddu o fod yn chwarterol i fod yn fisol i roi sicrwydd bod yr achos diogelwch gwagio tanwydd wedi ymwreiddio.

Nid oedd dim pryderon ynglŷn â diogelwch nac unrhyw reswm i boeni am ddiogelwch. Roedd symud pobl wedi digwydd yn gymharol esmwyth ac nid oedd achos i bryderu ar hyn o bryd.

Cwestiynau:

Mynegodd Derek Owen bryder am forâl staff, gan fod rhai pobl wedi cael eu cyflogi yn Wylfa ers blynyddoedd lawer a bod rhai'n poeni am y cap cyflog terfynol. Dywedodd Nick Blackburn nad oedd hwn yn fater y gallai'r ONR wneud sylw arno.

Eglurodd Gordon Malcolm fod Deddf Menter 2016 Senedd y DU am weld taliadau ymadael cyflogeion y sector cyhoeddus yn cael eu cyfyngu i £95k. Dywedodd fod gan rai cyflogeion tymor hir amddiffyniad sylfaenol a bod Cynigion y Llywodraeth yn dal yn destun trafodaethau. Dywedir fod llawer o ymgyrchu wedi digwydd a bod ASau a Gweinidogion wedi cael eu lobio ar y mater.

8. Diweddariad gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

Cyflwynodd Paul Wright yr adroddiad a oedd wedi'i rannu ymlaen llaw ac a oedd yn tynnu sylw at ollyngiadau o Wylfa, a oedd o fewn y cyfyngiadau penodedig. Roedd newidiadau wedi'u gwneud i'r broses samplo ac roedd y safle'n awr yn hunan fonitro ac adrodd.

Roedd gwaith monitro rheolaidd yn digwydd gyda samplau'n cael eu cymryd o wahanol fannau; nid oedd dim i achosi pryder.

O ran materion rheoliadol rheolaidd, roedd CNC wedi bod ar y safle bedair gwaith ers yr adroddiad diwethaf, fel y rhestrir yn yr adroddiad.

Roedd y gwaith i osod llinell gollwng elifiant wahanol wedi cael ei gwblhau ac roedd CNC yn edrych ymlaen at ei gweld yn gweithio. Roedd lefel uwch o gromad a ganfuwyd yn yr elifiant yn cael sylw.

Roedd CNC wedi gwneud mân amrywiadau i dair trwydded yn gysylltiedig â dŵr wyneb o'r safle.

Nodwyd na fu dim digwyddiadau na chamau gorfodi ers y cyfarfod diwethaf.

Cwestiynau: ni ofynnwyd dim cwestiynau.

9. Diweddariad gan Reolwr Gwastraff Wylfa

Nid oedd Aled Williams yn bresennol; felly cyflwynwyd yr eitem gan Gordon Malcolm a gyflwynodd adroddiad llafar.

O ran gweithgarwch arferol, nid oedd dim o bwys i'w adrodd; fodd bynnag, tynnwyd sylw at yr eitemau canlynol:

- Roedd gweithredu prosiect adennill DSC 4 tua deufis ar ôl er mwyn sicrhau bod yr ymarferion yng ngwaith Mona Engineering mor effeithiol â phosibl.

- Roedd y Gwaith Glanhau Ôl-weithredol (POCO) wedi mynd yn dda eleni gyda mwy o weithgareddau wedi'u trefnu e.e. cael gwared ar sylffad fferrus gweddilliol, rhagor o asid a chostig swmp, cemegyn dosio boeleri, olew insiwleiddio o geblau 400KV, olew cylchredwr R2, gwaredu llwch boron, siarcol actifedig o'r offer amsugno ïodin.

- Bydd y newid i'r Llinell Gwaredu Elifiant Gweithredol newydd yn galluogi'r safle i gau'r llwybr presennol. Byddai'r prosiect yn cynhyrchu ychydig o fetrau ciwbig o wastraff metelig wedi'i bacio.

Mae'r holl waith uchod wedi'i drefnu ar gyfer yr ychydig fisoedd nesaf. Nodwyd nad oedd y rhain ar raddfeydd mawr, ac y byddai traffig cerbydau'n dal i fod yn is nag yn ystod y gweithrediadau arferol blaenorol.

10. Diweddariad ar y Cynllun Economaidd Gymdeithasol

Cyflwynodd Mair Jones ei hun fel y Prif Swyddog Economaidd Gymdeithasol newydd a chyflwynodd yr adroddiad a oedd wedi'i rannu ymlaen llaw. Cafodd sefyllfa ariannol bresennol Wylfa yn 2016/17 ei nodi fel y gwelwyd yn y manylion a roddwyd. Bu wyth cais llwyddiannus o dan y cynllun cymydog da ers mis Ebrill. Roedd dau brosiect mwy ar waith – Sgiliau Gyrru Cymunedau yn Gyntaf Môn a phrosiect ynni llanw Menter Môn, a fyddai'n cael eu trafod yng nghyfarfod nesaf y GRhS. Mae manylion am y Cynllun Economaidd Gymdeithasol ar gael ar-lein. Roedd cyllid gwerth tua £141k wedi cael ei ddyfarnu hyd yma eleni.

Nodwyd fod Michelle Humphreys yn awr yn gyfrifol am gyfathrebu yn Nhrawsfynydd ac Wylfa.

Diolchwyd i Jill Callander am wneud y trefniadau ar gyfer y diwrnod.

11. Sesiwn Holi ac Ateb Fforwm Agored

Ni chafwyd dim cwestiynau.

Unrhyw Fater Arall

Cafodd dyddiadau Cyfarfodydd 2017, sef 9 Chwefror, 8 Mehefin a 12 Hydref eu rhannu â'r Aelodau.

12. Y Cyfarfod Nesaf – 9 Chwefror 2017.

Daeth y cyfarfod i ben am 15.55.